



# **COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

## ***ADRODDIAD AM Y CYFNOD***

***1 Ebrill 2009 – 31 Mawrth 2010***

**Awst 2010**



# COMISIWN FFINIAU I GYMRU

## **Aelodaeth y Comisiwn: -**

Y Llefarydd, Y Gwir Anrhydeddus John Bercow AS, Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd

Yr Anrhydeddus Mr Ustus Lloyd Jones, Dirprwy Gadeirydd – penodwyd ar 18fed o Ragfyr 2006 a'i ailbenodi ym mis Hydref 2009.

Mr Paul Wood, Comisiynydd – penodwyd yn gyntaf ar 1af o Fai 2008 hyd at 30ain o Ebrill 2013

Mr John Bader, Comisiynydd – penodwyd yn gyntaf ar 1af o Fai 2008 hyd at 30ain o Ebrill 2013

Y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr (Asesydd)  
Cyfarwyddwr Cyffredinol Arolwg Ordnans (Asesydd)

Mr E H Lewis, Cyd-ysgrifennydd (Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru) - penodwyd ar 1af o Ionawr 2002

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Tŷ Caradog  
1 – 6 Plas Sant Andreas  
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031  
Ffacs: 020 2039 5250

E-bost: [bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk](mailto:bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk)  
**Gwefan: [www.bcomm-wales.gov.uk](http://www.bcomm-wales.gov.uk)**

***Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg***

## **Comisiwn Ffiniau i Gymru**

### **Adroddiad Blynyddol 2009 i 2010**

#### **RHAGAIR**

Yn ystod y cyfnod, rydym wedi dechrau ar adolygiad interim o'r etholaethau seneddol Brycheiniog a Sir Faesyfed a Merthyr Tudful a Rhymni. Digwyddodd hyn o ganlyniad i newid yn y ffiniau llywodraeth leol. Dechreuodd yr adolygiad yn Rhagfyr 2009, ac roeddem wedi bwriadu cyhoeddi ein Hargymhellion Amcanol cyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond er mwyn sicrhau ymgynghoriad effeithiol fe wnaethom ni benderfynu gohirio cyhoeddi'r adroddiad hwn hyd nes yr oedd yr etholiad cyffredinol ym Mai 2010 wedi ei gynnal. Oherwydd swmp bychan y gwaith y bu angen inni ei wneud, dim ond ar ddau achlysur y cyfarfu'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi fy niolch a'm gwerthfawrogiad i'n Hysgrifenyddiaeth a phawb arall sydd wedi cynorthwyo'r gwaith o gyflawni gwaith parhaol y Comisiwn.

***Syr David Lloyd Jones***  
**Dirprwy Gadeirydd**

**Gorffennaf 2010**

## **CYFLWYNIAD**

### **Y Noddwr**

1. Corff Cyhoeddus Anadrannol i gynghori yw'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru, a chaiff ei noddi a'i ariannu'n llwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol, a'i ddyletswydd statudol ef yw eu rhoi gerbron y Senedd. Lle bo'r adroddiad yn argymhell bod newidiadau'n angenrheidiol i ffiniau etholaethau Seneddol neu i ffiniau rhanbarthau etholaethol y Cynulliad, rhaid iddo hefyd roi drafft o Orchymyn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd er mwyn dod â'n hargymhellion i rym. Petai'n penderfynu addasu'r argymhellion, rhaid iddo hefyd roi datganiad ynglŷn â'i resymau dros wneud hynny. Yr Arglwydd Ganghellor sy'n penodi'r Dirprwy Gadeirydd, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi un o aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol, a'r ddau Gyd-ysgrifennydd (gweler yr Aelodaeth isod).

### **Y Comisiwn**

2. Cyfansoddir y Comisiwn dan Adran 2 ac Atodlen 1 o Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n gorff annibynnol, anwleidyddol, a chwbl ddiuedd, a manteisir ar bob cyfle i bwysleisio'n gryf iawn nad yw, ac na ddylai, canlyniadau etholiadau blaenorol fod yn rhan o ystyriaethau'r Comisiwn. Hefyd, nid ystyrir effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol. Yn ei nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cynghori na ddylai ffactorau o'r fath gael eu hystyried mewn ymchwiliadau cyhoeddus.
3. Ers sefydlu Comisiwn parhaol yn 1944 hyd at 1af o Ionawr 2002, roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi ei staffio yn Llundain, hyd braich oddi wrth yr Adran Noddi, gan swyddogion y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a'i ddau ragflaenydd sef y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol a'r Swyddfa Cyfrifiadau ac Arolygon Poblogaeth. Roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu lle a gwasanaethau ategol eraill i'r Comisiwn. Roedd y staff a chostau eraill a wariwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cael eu had-dalu gan yr Adran Noddi bob chwarter, fel ôl-ddyled. Gan ddod i rym ar 1af o Ionawr 2002, mae swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, sydd wedi eu lleoli yng Nghaerdydd, wedi staffio'r Ysgrifenyddiaeth.

### **Aelodaeth**

4. Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig, a hynny yn rhinwedd ei swydd. Mae penodi'r Llefarydd yn pwysleisio'r annibyniaeth, y didueddrwydd a'r natur anwleidyddol. Nid yw'r Llefarydd yn chwarae unrhyw ran yn y gwaith o gynnal adolygiadau. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu'r cyfarfodydd, yn Farnwr Uchel Lys: sef yr Anrhydeddus Mr Ustus Lloyd Jones (Syr David). Yr Aelodau yw Mr Paul Wood a Mr John Bader.

5. Trwy gytundeb, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn penodi un aelod i'r Comisiwn; bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn penodi'r llall.
6. Mae'r Comisiynwyr yn rhai wedi eu penodi'n rhan amser ac yn cyfarfod pryd bynnag y bo'r rhaglen gwaith yn gofyn, a hynny yn y swyddfeydd a rennir gyda'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd un cyfarfod yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn. Ers i'r Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992 ddod i rym, mae Aelodau'r Comisiwn (ac eithrio'r Dirprwy Gadeirydd) wedi derbyn ffi ddyddiol a gytunwyd gan yr Adran Noddi gyda'r Trysorlys yn dâl am waith a gyflawnwyd ar ran y Comisiwn, ac mae ganddynt hawl, ynghyd â'r Dirprwy Gadeirydd, i ad-daliad am unrhyw dreuliau (megis teithio a chynhaliaeth) a wariwyd mewn perthynas â gwaith y Comisiwn.
7. Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr o Fuddiannau Aelodau, ac mae'r rhain yn cael eu diweddau'n flynyddol. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael os gwneir cais amdanynt.
8. Mae gan y Comisiwn ddau asesydd statudol. Un yw Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr, sy'n Gyfarwyddwr y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a'r llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol Arolwg Ordnans. Bydd dirprwywyr yn cynrychioli'r ddau yng nghyfarfodydd y Comisiwn; Ms Alison Whitworth ar ran y Cofrestrydd Cyffredinol a Mr Aaron Sollis ar ran y Cyfarwyddwr Cyffredinol.
9. Mae dau Gyd-Ysgrifennydd: sef Mr Edward Lewis, sy'n bennaeth ar yr Ysgrifenyddiaeth ac sydd hefyd yn Ysgrifennydd i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, a'r ail, sy'n swydd wag ar hyn o bryd, yn cael ei benodi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

### **Yr Ysgrifenyddiaeth**

10. Rôl yr Ysgrifenyddiaeth yw gwasanaethu a chynorthwyo'r Comisiynwyr wrth gynnal eu hadolygiadau ac wrth weithredu eu penderfyniadau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi ei lleoli yn swyddfeydd Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yng Nghaerdydd, a bellach mae'r cyswllt ynglŷn â staffio a lleoliad yn digwydd gyda Llywodraeth y Cynulliad.

### **Dyletswyddau Statudol**

11. Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw cadw golwg barhaus ar ddsbarthiad seddi mewn etholiadau Seneddol, cynnal adolygiadau rheolaidd o'r ffiniau, a llunio adroddiadau gydag argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol, a hynny'n unol â darpariaethau'r Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'u diwygiwyd). Hefyd, gall y Comisiwn gynnal adolygiadau dewisol neu interim mewn un neu ragor o etholaethau lle bo'r Comisiynwyr yn credu bod hynny'n briodol.

## **Cysylltiad gyda Chyrff Eraill**

12. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi cadw cysylltiad rheolaidd gyda'r Comisiynau Ffiniau eraill, a hynny trwy gyfrwng cyfarfodydd a chyfnewid gwybodaeth. Roedd disgwyl i'r Comisiwn gael ei gynrychioli mewn cyfarfod o'r Comisiynau Ffiniau Seneddol a Llywodraeth Leol a oedd i'w gynnal yng Nghaeredin yn Ebrill 2010, ond cafodd y digwyddiad ei ganslo oherwydd trafferthion o ran teithio. Disgwylir y bydd y digwyddiad hwn yn cael ei aildefnu yn hwyrach yn y flwyddyn. Hefyd, cafodd cysylltiad rheolaidd ei gadw gyda Llywodraeth y Cynulliad ac Arolwg Ordans.

## **AMCANION**

### **Amcan Cyffredinol**

13. Cadw golwg parhaus ar gynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn y Cynulliad Cenedlaethol.

### **Amcanion Penodol ar gyfer 2009/2010**

14. Bydd y Comisiwn yn gosod ei amcanion ei hun ar gyfer pob blwyddyn. Ar gyfer 2009/10, yr amcan a osodwyd oedd cynnal adolygiad interim o'r etholaethau seneddol a'r Cynulliad yn ardaloedd Brycheiniog a Sir Faesyfed, a Merthyr Tudful a Rhymni. Digwyddodd yr adolygiad o ganlyniad i newid yn y ffiniau llywodraeth leol yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Dechreuodd yr adolygiad interim ar 21ain o Ragfyr 2009. Disgwylir i Argymhellion Amcanol gan eu cyhoeddi ym Mehefin 2010 (yn dilyn yr etholiad cyffredinol ym Mai).

### **Cynllun Iaith Gymraeg**

15. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn, dan delerau ein Cynllun Iaith Gymraeg, gyflwyno adroddiadau blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â gweithrediad y cynllun.

## **CYLLIDEB A GWARIANT**

16. Mae'r tabl canlynol yn cymharu'r gwir wariant gyda'r gyllideb, a hynny yn ystod y flwyddyn ariannol sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, ac mae'n dangos unrhyw wahaniaethau.

### **Cyllideb a Gwariant yn ôl Is-bennawd – 2009/2010**

<b>Elfen o'r Gyllideb</b>	<b>Cyllideb</b>	<b>Gwariant</b>	<b>Gwahaniaeth</b>
	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>
Cyflogau ac Ysw. Gwladol	27,600	19,393	-8,207
Gorbenion	31,800	30,069	-1,731
T&S	1,100	824	-276
Amrywiol	1,960	328	-1,632
<b>Cyfanswm Costau Rhedeg</b>	<b>62,460</b>	<b>50,614</b>	<b>-11,846</b>
Hysbysebu	12,800	0	-12,800
Costau Arolwg Ordnans	0	0	0
Ffioedd Ymchwiliadau	0	0	0
Ffioedd Comisiynau	9,600	2,022	-7,578
T&S	2,300	50	-2,250
Amrywiol	5,890	163	-5,727
<b>Cyfanswm Cyfredol Arall</b>	<b>30,590</b>	<b>2,235</b>	<b>-28,355</b>
<b>Prif Gyfanswm</b>	<b>93,050</b>	<b>52,859</b>	<b>-40,201</b>

17. Mae'r tabl isod yn dangos y lefelau staff yr Ysgrifenyddiaeth, a hynny yn ôl yr hyn a gynlluniwyd a'r lefelau mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn ariannol.

#### **Cyflenwad Staff– 2009/2010**

<b>Graddfa</b>	<b>1/4/2009</b>		<b>1/7/2009</b>		<b>1/10/2009</b>		<b>1/1/2010</b>	
	<b>Cyn llun</b>	<b>Gwir.</b>	<b>Cyn- llun</b>	<b>Gwir.</b>	<b>Cyn- llun</b>	<b>Gwir.</b>	<b>Cyn- llun</b>	<b>Gwir.</b>
Cyd-ysg.	0.60	0.02	0.06	0.09	0.60	0.07	0.60	0.13
Band E, LICC	1.00	0.04	1.00	0.00	1.00	0.02	1.00	0.02
Band C, LICC	2.00	0.00	2.00	0.00	2.00	0.11	2.00	0.17
Band A/B, LICC	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.01	0.00	0.00
<b>Cyfanswm</b>	<b>3.60</b>	<b>0.06</b>	<b>3.60</b>	<b>0.09</b>	<b>3.60</b>	<b>0.21</b>	<b>3.60</b>	<b>0.32</b>

Roedd y cyflenwad staff a gynlluniwyd wedi ei osod gan Femorandwm Cytundeb ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, i Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, ac roedd wedi ei seilio ar ofyniad amcangyfrifedig o 60% o amser y Cyd-ysgrifennydd, ynghyd â 100% o 1 x amser Band E, LICC a 100% o 2 x amser Band C, LICC, er mwyn cwblhau'r Pumed Adolygiad Cyfnodol.



## **Monitro Gwariant**

18. Bob chwarter, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn darparu adroddiad yn nodi gwariant yn y chwarter i'r adran noddi, ac yn rhagweld gor/tan-wariannau.

## **RHAGLEN WAITH AMLINELLOL AR GYFER 2010/2011**

### **Rhaglen**

19. Yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, y gyllideb fydd £96,050. Cyflenwad y staff fydd 3.6 yn cyfateb i lawn amser. Ein hamcan penodol fydd:
  - Cwblhau'r adolygiad interim a ddechreuwyd yn 2009/10.
  - Sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol yn cael ei darparu er mwyn cwblhau'r dasg o droi'r adolygiad interim yn ddeddfwriaeth.
  - Gwneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer unrhyw adolygiadau interim ychwanegol a allai fod yn ofynnol.
  - Monitro unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n cael effaith ar waith y Comisiwn, a chymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i wneud lle i unrhyw newidiadau.